Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Addysg a Chymorth i Deuluoedd |**
**Education and Family Support**
E-bost/Email:
schooltransport@bridgend.gov.uk
Deialu uniongyrchol / Direct line:01656 643643
Gofynnwch am / Ask for: Tîm Trafnidiaeth Ysgol

Ein cyf / Our ref: RJD9/2025
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad / Date:** 30 Medi 2024

Annwyl riant/gofalwr

**Cludiant rhwng yr ysgol a'r cartref (o fis Medi 2025)**

Ers blynyddoedd lawer, mae'r cyngor wedi darparu un o'r cynigion cludiant ysgol a choleg mwyaf hael yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau mwyaf erioed ar gyllideb y cyngor, ac er mwyn gwneud arbedion ariannol sylweddol, cymeradwyodd Cabinet y cyngor newidiadau i'r Polisi Cludiant Rhwng yr Ysgol/Coleg a'r Cartref ym mis Medi 2024.

Mae'r polisi newydd ar gael ar wefan yr awdurdod lleol a bydd yn weithredol o fis Medi 2025.

Bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu rhieni/gofalwyr unigol maes o law pa un a fydd y newid polisi yn effeithio ar eu plentyn/plant o gychwyn blwyddyn ysgol 2025-2026.

O fis Medi 2025, os caiff cymhwysedd ar gyfer cludiant ysgol ei gymryd oddi wrth eich plentyn, nid oes unrhyw broses apêl ac ni fydd unrhyw weithrediad fesul cam neu amddiffyniad ar waith ar gyfer unrhyw ddisgybl.

Mae'r Cabinet wedi cytuno i wneud y pedwar newid polisi canlynol:

**Newid 1** – Diddymu cludiant i bob disgybl sydd â llwybr cerdded a nodwyd ac sydd ar gael (diogel) i'r ysgol yn unol â phellteroedd statudol o ddwy filltir ar gyfer disgyblion ysgol gynradd a thair milltir ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd.

**Newid 2** – Cael gwared ar yr amddiffyniad 'brawd neu chwaer' ac 'yn derbyn' i ddisgyblion.

**Newid 3** – Cael gwared ar yr holl gludiant i ddisgyblion Meithrin (ac eithrio addysg cyfrwng Cymraeg a ffydd).

**Newid 4** – Cael gwared ar yr holl gludiant Ôl-16 (ac eithrio addysg cyfrwng Cymraeg a ffydd).

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council
Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Mae crynodeb o gymhwysedd pob disgybl o fis Medi 2025 fel a ganlyn:

- Ar gyfer pob disgybl ysgol gynradd (Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6), bydd cludiant yn cael ei ddarparu dim ond os yw'n mynychu ei ysgol cyfrwng Saesneg dalgylch neu ei ysgol cyfrwng Cymraeg neu ffydd agosaf ac yn byw dwy filltir neu fwy o'r ysgol, neu fod yr **awdurdod lleol** o'r farn nad yw'r llwybr cerdded o gartref y disgybl ar gael.

- Ar gyfer pob disgybl ysgol uwchradd (Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11), bydd cludiant yn cael ei ddarparu dim ond â chludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os yw'n mynychu ei ysgol cyfrwng Saesneg dalgylch neu ei ysgol cyfrwng Cymraeg neu ffydd agosaf ac yn byw tair milltir neu fwy o'r ysgol, neu fod yr **awdurdod lleol** o'r farn nad yw'r llwybr cerdded o gartref y disgybl ar gael.

- Ar gyfer disgyblion Meithrin, bydd cludiant yn cael ei ddarparu dim ond os ydynt yn mynychu eu hysgol cyfrwng Cymraeg neu ffydd agosaf ac yn byw 1.5 milltir neu fwy o'r ysgol, neu fod yr **awdurdod lleol** o'r farn nad yw'r llwybr cerdded o gartref y disgybl ar gael. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n mynychu **unrhyw** ysgolion cyfrwng Saesneg.

- Ar gyfer disgyblion Ôl-16 (chweched dosbarth), bydd cludiant yn cael ei ddarparu dim ond os ydynt yn mynychu eu hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ffydd ac yn byw tair milltir neu fwy o'r ysgol, neu fod yr **awdurdod lleol** o'r farn nad yw'r llwybr cerdded o gartref y disgybl i'r ysgol honno ar gael. Ni fydd unrhyw ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n mynychu **unrhyw** ysgol cyfrwng Saesneg nac **unrhyw** goleg addysg bellach.

Fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn deall, ni wnaed y penderfyniadau i wneud y newidiadau hyn ar chwarae bach. Mae'n bwysig bod rhieni/gofalwyr yn deall effaith y newidiadau hyn. Os hoffech ragor o wybodaeth, gweler gwefan y cyngor.

Yn ôl yr arfer, rwy'n ddiolchgar am eich dealltwriaeth yng nghyswllt y mater hwn.

Yn gywir

L Harvey

Lindsay Harvey
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc)

Ffôn/Tel: 01656 643643 Ffacs/Fax: 01656 668126 E-bost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**
**Education, Early Years and Young People Directorate**
Ebost/Email: schooltransport@bridgend.gov.uk
Deialu uniongyrchol / Direct line:01656 643643
Gofynnwch am / Ask for: School Transport Team

Ein cyf / Our ref: RJD9/2025
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad / Date:** 30 September 2024

Dear parent/carer

**Home-to-school transport (from September 2025)**

For many years the council has provided one of the most generous school and college transport offers in Wales. However, due to the unprecedented pressure on the council's budget, and in order to make significant financial savings, the council's Cabinet approved changes to the current Home-to-School/College Transport Policy in September 2024.

The new policy is available on the local authority website and will apply from September 2025.

The local authority will notify individual parents/carers in due course whether the policy change will affect their child(ren) from the start of the 2025-2026 school year.

From September 2025, if school transport eligibility is removed from your child, there is no appeal process and there will be no phased implementation or protection in place for any pupils.

Cabinet has agreed to the implementation of the following four policy changes:

**Change 1** - Withdrawal of transport for all pupils benefitting from an identified and available (safe) walking route to school in line with statutory distances of two miles for primary school pupils and three miles for secondary school pupils.

**Change 2** - Removal of the 'sibling' and 'in-receipt' protection for pupils.

**Change 3** - Removal of all transport for Nursery pupils (excluding Welsh-medium and faith-based education).

**Change 4 -** Removal of all Post-16 transport (excluding Welsh-medium and faith-based education).

A summary of the eligibility of all pupils from September 2025 is as follows:

- For all primary school pupils (Reception to Year 6), transport will only be provided if they attend their catchment English-medium school or nearest Welsh-medium or faith school and live two miles or more from the school, or the walking route from the pupil's home is considered by the **local authority** to be unavailable.

- For all secondary school pupils (Year 7 to Year 11), transport will only be provided with free home-to-school transport if they attend their catchment English-medium school or nearest Welsh-medium or faith school and live three miles or more from the school, or the walking route from the pupil's home to the school is considered by the **local authority** to be unavailable.

- For Nursery pupils, transport will only be provided if they attend their nearest Welsh-medium or faith school and live 1.5 miles or more from the school, or the walking route from the pupil's home is considered by the **local authority** to be unavailable. There is no provision for pupils attending **any** English-medium schools.

- For Post-16 (sixth-form) pupils, transport will only be provided if they attend their nearest Welsh-medium or faith secondary school and live three miles or more from the school, or the walking route from the pupil's home to that school is considered by the **local authority** to be unavailable. There will be no provision for pupils attending **any** English-medium school or **any** further education college.

As I am sure you will understand, the decision to make these changes has not been taken lightly. It is important that parents/carers understand the impact of these changes. For more information, please see the council's website.

As always, I am grateful for your understanding in respect of this matter.

Yours sincerely

L L Harvey

Lindsay Harvey
Corporate Director (Education, Early Years and Young People)

Ffôn/Tel: 01656 643643 Ffacs/Fax: 01656 668126 E-bost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh